# Bl. 5 a 6 Tymor yr Hydref 2017: Glas, Glas Blaned

## Llythrennedd...Meini Prawf Llwyddiant

**A yw eich plentyn yn gallu:**

- Gofyn ac ymateb i gwestiynau amrywiol yn gywir a synhwyrol?
- Ymateb i Chwedlau Cymreig (e.e. Chwedl Gwenffrewi)?
- Ysgrifennu disgrifiad o ardal?
- Casglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys TGCh?
- Cyflwyno gwybodaeth am agwedd Daearyddol ar lafar ac yn ysgrifenedig?
- Ysgrifennu llythyr/ebost personol i rywun o wlad cyferbyniol?
- Darllen ac ymateb i destun amrywiol yn annibynnol – gan ddefnyddio sgiliau darllen a deall i bwrpas a strategaeth PEE? (Pwynt, Enghraifft, Eglurhad)
- Ysgrifennu esboniad manwl?
- Cyflwyno araith berswadiol?
- Ymateb i nofelau dosbarth drwy gyfeirio at dechnegau'r awdur?
- Cynllunio ac ysgrifennu adroddiad papur newydd?

## Rhifedd...Meini Prawf Llwyddiant

**A yw eich plentyn yn gallu:**

- Adnabod a threfnu rhifau hyd at 1,000,000?
- Darganfod priodweddau a phatrymau rhifau amrywiol?
- Defnyddio strategaethau adio a thynnu rhifau yn gyflym a chywir?
- Lluosi a rhannu degolion?
- Datrys problemau geiriol sy'n cynnwys arian, amser a phellter?
- Cyfrifo ffracsiynau, degolion a chanrannau – gan gysylltu hyn gyda chyfrannedd a chymhareb?
- Mesur a chyfrifo perimedr ac arwynebedd yn gywir?
- Trefnu a dadansoddi data mewn siartiau bar, graffiau llinell, taenlenni a bas data?

## Cyswllt Traws-gwricwlaidd:

**A yw eich plentyn yn gallu:**

- Adnabod a chymharu gwahaniaethau o fyw yng Nghymru a Gambia.
- Adnabod yr elfennau cerddorol ( traw, tempo, dynameg, strwythur, distawrwydd, parhad a gwead) ac enwi gwahanol offerynnau a'u defnyddio i gyfansoddi stori cerddorol.
- Defnyddio sgiliau digidol (TGCh), sgriptio, celf ac animeiddio i greu ffilm fer o'r Chwedl Gwenffrewi.
- Adnabod, disgrifio a dosbarthu adar amrywiol.

**Ymweliad Addysgol:**

- **RSPB Conwy**

## Rhestr Lyfrau:

Dŵr Afon Tirion – Manon Wyn
Ailgylchu Alwyn – Gwyn Morgan
Dyn Haearn – Emily Hughes

## Geirfa Allweddol:

Ailgylchu, Mudo, amddiffyn, newid hinsawdd, parthau amser, Y Gambia, Gwalch y Pysgod, cyfeillgarwch, dinasyddiaeth, Cristnogaeth, addoli.